**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**99 - Ychwanegion Bwyd, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019**

*Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 5 Chwefror 2019*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Dd/B |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Dd/B |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 29 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Dd/B |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |

**Sylwadau**

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 (1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol mewn deddfwriaeth yr UE a ddargedwir (fel y nodir a rhestrir yn Natganiad Llywodraeth Cymru) sy'n darparu rheolau manwl ar ychwanegion bwyd, cyflasynnau, ensymau, toddyddion echdynnu a chymhorthion prosesu, y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel asiantau gwella bwyd.  Mae hyn er mwyn galluogi'r gofynion rheoliadol sy'n berthnasol i'r sylweddau hyn i weithredu'n effeithiol fel deddfwriaeth ddomestig ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu cyfraith yr UE a ddargedwir a ganlyn – Rheoliadau (UE) Rhif 257/2010 sy'n darparu ar gyfer sefydlu rhaglen barhaus ar gyfer ail-werthuso ychwanegion bwyd cymeradwy cyn 2009.

Ymhellach, mae'r Rheoliadau hyn yn cryfhau pwerau gweithredol Gweinidogion Cymru drwy drosglwyddo swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys pwerau gwneud rheoliadau o dan ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir i Weinidogion Cymru er mwyn:

- penderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau am ychwanegion bwyd, ensymau bwyd, cyflasynnau bwyd (gan gynnwys cyflasynnau mwg) i'w gosod ar y farchnad (gan gynnwys ail-awdurdodi ac addasiadau) mewn perthynas â Chymru, yn ogystal ag i ragnodi mesurau gweithredu ar gyfer eu hawdurdodi.
- diwygio gofynion labelu ar gyfer y sylweddau hyn.
- gwneud rheoliadau i ddiwygio elfennau nad ydynt yn hanfodol o gyfraith yr UE, er enghraifft ystyried datblygiadau gwyddonol newydd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 6 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.